



Datgloi Dysgu Iaith trwy Drawsieithu

Strategaeth Effeithiol ar gyfer Caffael ar iaith yn yr Ystafell Ddosbarth

Prosiect Tokyo Astudiaeth Achos 2

Soper, C., Blackmore, R., Phillips, N., Childs, D., Powles, A., Stokes, M. a Williamson-Dicken, M. (2025)

Yn ystod ymweliad dirprwyaeth Prosiect Tokyo â Japan, fe fu'r tîm yn arsylwi ar ddewis o ysgolion rhyngwladol lle defnyddiwyd trawsieithu mewn ffordd systematig fel strategaeth addysgegol i rymuso dysgwyr. Nid oedd yr arfer hwn yn ddamweiniol. Yn hytrach, roedd wedi'i ymgorffori o fewn fframweithiau cyfarwyddyd yr ysgolion, gan adlewyrchu ymrwymiad bwriadol i gydnabod repertoire ieithyddol plant a'i ffrwyno. Daeth trawsieithu i'r amlwg fel thema ailadroddus, a weithredwyd yn gyson fel ffordd o alluogi dysgwyr i fanteisio ar eu hadnoddau ieithyddol llawn, er mwyn goresgyn rhwystrau i ddealltwriaeth ac i gael mynediad mwy effeithiol at gynnwys y cwricwlwm.

Er ei fod yn gymharol newydd, mae'r cysyniad o drawsieithu â'i wreiddiau yn y Gymraeg a chyflwynwyd y term *trawsieithu* am y tro cyntaf gan Cen Williams yn 1994 i ddisgrifio'r arfer addysgegol o newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn yr ystafell ddosbarth. Yn ddiweddarach, ymestynnwyd y dull arloesol hwn a daeth yn boblogaidd trwy weithiau Baker (2001, 2006, 2011) ac Ofelia García (2009), a ffurfiodd y cysyniad o drawsieithu o'r newydd fel mwy na thechneg ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Mae García yn gosod trawsieithu fel newid yn y paradeim o ran y ffordd y mae iaith yn cael ei deall, ei haddysgu a'i phrofi, gan bwysleisio'i rôl wrth herio ideolegau uniaith a chydnabod natur ddeinamig, newidiol, cyfathrebu dwyieithog ac amlieithog.

Yn ôl ei ddiffiniad, mae trawsieithu'n cyfeirio at y gallu i symud yn rhwydd rhwng ieithoedd, gan alluogi dysgwyr i feddwl ar draws sawl system ieithyddol ar yr un pryd. Mae'n galluogi plant i ddefnyddio iaith yr aelwyd fel cyfrwng ar gyfer dysgu, gan ddilysu eu hunaniaeth a'u cefndir diwylliannol a hwyluso mynediad at wybodaeth newydd ar yr un pryd. Mae'r broses hon yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng ieithoedd, i drosglwyddo sgiliau ar draws ffiniau ieithyddol, ac i ddefnyddio'u holl repertoire ieithyddol i'w gwasanaethu wrth iddynt ffurfio ystyr. Er enghraifft, gall plentyn dderbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yna prosesu, mynegi, neu gymhwyso'r wybodaeth honno mewn iaith arall, a thrwy hynny ddangos hyblygrwydd gwybyddol ac ymwbyddiaeth feta-ieithyddol.

Mae goblygiadau addysgegol trawsieithu yn sylweddol. Mae'n herio modelau traddodiadol addysg ddwyieithog sy'n aml yn gwahanu ieithoedd yn adrannau anhyblyg, ac yn hyrwyddo dull integredig sy'n adlewyrchu realiti cyfathrebu amlieithog. Wrth wneud hynny, mae trawsieithu yn gwella dealltwriaeth a hefyd yn meithrin meddwl beirniadol, creadigrwydd ac ymreolaeth y dysgwr. Mae'n sefydlu iaith fel adnodd yn hytrach na rhwystr, ac mae'n gofyn i addysgwyr fabwysiadu arferion sy'n ymateb i gefndiroedd ieithyddol amrywiol eu dysgwyr. Mae'n bwysig nodi bod trawsieithu llwyddiannus yn dibynnu ar afael gadarn y dysgwr ar iaith y cyfarwyddyd, sy'n dod yn sylfaen y gellir adeiladu cysylltiadau traws-ieithyddol arni.

Trawsieithu: Diffiniadau a Defnydd yn yr Ystafell Ddosbarth

Mae deall trawsieithu yn gofyn am ei leoli ochr yn ochr â chysyniadau cysylltiedig sy'n dylanwadu ar siâp addysgeg amlieithog a'r ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r diffiniadau canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer archwilio sut mae iaith yn gweithredu fel adnodd gwybyddol ac offeryn cymdeithasol ym maes addysg.

- Trawsieithu: symud rhwng dwy iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn yr un gweithgaredd fel bod dysgwyr yn prosesu gwybodaeth ar draws ieithoedd.
- Cyfryngu: Helpu eraill i gyfathrebu trwy aralleirio, crynhoi, cyfieithu neu ddehongli rhwng ieithoedd neu o fewn ieithoedd.
- Dwyieithrwydd: Gallu unigolion neu gymunedau i fodloni anghenion cyfathrebu bob-dydd mewn dwy iaith neu fwy.
- Newid cod: Symud o un iaith i'r llall wrth siarad pan fydd y ddau siaradwr yn rhannu'r ieithoedd hynny.
- Sgaffaldu: Cymorth dros dro gan athro neu unigolyn gwybodus i helpu dysgwyr i ddatrys problemau na allant eu datrys yn annibynnol eto.

- Meta-ieithyddiaeth: Y gallu i feddwl yn benodol am strwythur a ffurf iaith, ar wahân i'r ystyr.

Trawsieithu yng Nghymru

'Dylai pob plentyn gael cyfleoedd i ddysgu bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol a bod llawer o ieithoedd eraill yn cael eu siarad yn ein cymunedau. Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod plant yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ieithoedd gwahanol a'r bobl sy'n eu siarad. Dylai'r sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith gefnogi'r gwaith o fagu gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.'
(Llywodraeth Cymru, 2022, t.21)

Yn flaenorol, yr arfer cyffredinol mewn addysg cyfrwng Cymraeg oedd cadw'r ddwy iaith ar wahân o fewn un wers. Pwysleisiwyd y safiad hwn yn aml gan aelodau o Estyn, arolygiaeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r newid yn y Cwricwlwm i Gymru tuag at iaith a dwyieithrwydd yn golygu eu bod wedi edrych eto ar y cysyniad o drawsieithu, gyda'r nod o feithrin disgyblion dwyieithog hyderus a chytbwys trwy ddefnydd cryf, lefel-uchel o'r ddwy iaith.

'Rhaid i addysg ddwyieithog i rymuso iaith leiafrifol ddiogelu lle ar gyfer yr iaith leiafrifol, ac ar yr un pryd creu lle dwyieithog lle gall yr iaith leiafrifol (Cymraeg) ryngweithio â'r iaith fwyafrifol (Saesneg).'
(Jones 2017, t. 208)

Trawsieithu yn Japan

Wrth wraidd ymarfer caffael iaith yn ysgolion rhyngwladol Tokyo roedd y defnydd bwriadol o drawsieithu, gyda chefnogaeth meddylfryd agored a oedd yn trin ieithoedd niferus fel ased addysgegol. Creodd athrawon a diwylliannau ysgolion le bwriadol i ddysgwyr symud rhwng ieithoedd, gan fodelu a normaleiddio'r ffaith fod adnoddau ieithyddol o'r cartref a'r ysgol yn offerynnau defnyddiol ar gyfer meddwl a dysgu.

Cynhyrchodd y dull hwn sawl canlyniad cysylltiedig. Llwyddodd i feithrin chwilfrydedd go iawn am ieithoedd a sut maen nhw'n gweithio, anogodd y dysgwyr i arbrofi gyda geirfa a strwythur, a meithrin hyder a brwdfrydedd ynghylch defnyddio mwy nag un iaith. Dysgodd y disgyblion i gofleidio ieithoedd yn rhan o'u hunaniaeth a datblygu gwytnwch wrth gyfathrebu: roeddent yn teimlo'n hyderus i "roi cynnig arni," yn derbyn camgymeriadau fel rhan o'r broses ddysgu, ac yn dyfalbarhau pan fo'n anodd dod o hyd i'r ystyr. Trwy flaenoriaethu ystyr a chyfathrebu yn hytrach na ffiniau iaith llym, datblygodd disgyblion ymwybyddiaeth feta-ieithyddol gryfach a mwy o hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â chysyniadau newydd.

Mae'r arfer hwnnw'n gwrthgyferbynnu â dulliau cyfarwyddyd uniaith mwy anhyblyg yng Nghymru, lle roedd ieithoedd yn aml yn cael eu cadw ar wahân yn yr ystafell ddosbarth. Mae ysgolion Tokyo yn rhannu argyhoeddiad cyffredin fod yn rhaid i blant allu mynegi eu hunain yn eu mamiaith, a bod y rhyddid hwn i ddefnyddio pob iaith sy'n hysbys iddynt yn cryfhau hunaniaeth, ymgysylltiad a dysgu'n gyffredinol.

Yr Ysgol Brydeinig yn Tokyo

Yn yr Ysgol Brydeinig yn Tokyo, mae athrawon yn newid iaith y cyfarwyddyd fel mater o drefn wrth esbonio gweithdrefnau tasgau ac yna'n gofyn i ddysgwyr gwblhau'r gwaith yn yr iaith darged. Mae'r ymarfer hwn yn sgaffald addysgiadol bwriadol sy'n lleihau cymhlethdod ieithyddol yn ystod esboniad ac ar yr un pryd yn cadw disgwyliadau ar gyfer cynhyrchu yn yr iaith darged yn ystod ymarfer. Mae'r broses hon o greu dilyniannau yn helpu dysgwyr i ddeall cysyniadau mewn iaith sy'n fwy hygyrch yn gyntaf, ac yna trosglwyddo'r dealltwriaeth honno at yr iaith darged, gan wella'u dealltwriaeth a'u defnydd o'r iaith.

Ysgol Ryngwladol Tokyo

Yn Ysgol Ryngwladol Tokyo, Saesneg yw prif gyfrwng y cyfarwyddyd, ond caniateir ac anogir dysgwyr i ddefnyddio'u mamiaith, mewn rhyngweithiadau â chyfoedion neu staff pan fydd defnydd o'r fath yn cael gwared ar rwystrau i ddysgu ac yn hyrwyddo'u gallu i gwblhau tasgau. Mae'r dull hwn yn trin ieithoedd y cartref fel offerynnau ymarferol ar gyfer ffurfio ystyr a chefnogi rhyngweithio â chyfoedion, gan gydnabod y gall defnyddio iaith gryfach am gyfnod byr leihau pryder, cyflymu'r gallu i ddatrys problemau, a helpu dysgwyr i fyfyrar eu meddwl cyn dychwelyd at iaith y cyfarwyddyd.

New International School yn Japan

Yn New International School yn Japan, maent yn gweld ieithoedd fel offerynnau i fynegi, yn hytrach nag fel pynciau ynysig, ar wahân. Mae

dysgwyr yn rhydd i ymateb mewn ieithoedd heblaw iaith y cyfarwyddyd ac fe'u hanogir i rannu syniadau ar draws ffiniau iaith. Mae'r dull hwn yn cefnogi galluedd dysgwyr ac yn blaenoriaethu cyfathrebu clir a dealltwriaeth gysyniadol dros gadw'n llym at un iaith.

AOBA Ysgol Ryngwladol Japan

Mae polisi iaith AOBA yn dynodi Saesneg fel iaith cynhwysiant, gan ddarparu cyfrwng cyffredin ar gyfer cyfranogiad a mynediad academiaidd a pharchu a meithrin mamieithoedd y dysgwyr ar yr un pryd, i gynnal eu hunaniaeth ddiwylliannol a'u treftadaeth ieithyddol. Mae'r pwyslais deuol hwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng mynediad cyfartal i'r cwricwlwm trwy iaith a rennir a chefnogi ieithoedd y cartref, felly nid yw cynhwysiant yn golygu gorfodi pawb i roi'r gorau i'w hiaith neu eu diwylliant.

Ysgol Elfennol Sakura

Mae Ysgol Elfennol Sakura yn gweithredu dull dwyieithog hyblyg lle mae plant yn ymgysylltu ag adnoddau a gyflwynir yn Saesneg a Japaneeg. Yn hytrach na darparu cyfieithiadau llythrennol, mae'r ysgol yn mynd ati'n fwriadol i ddosbarthu deunyddiau cyflenwol ar draws y ddwy iaith fel bod yn rhaid i ddysgwyr ymdrin â gwybodaeth o'r ddwy ffynhonnell ieithyddol a'u hintegreiddio. Mae'r dyluniad hwn yn helpu dysgwyr i gysylltu syniadau ar draws ieithoedd a deall sut y mae iaith yn gweithio, gan gefnogi dysgu dyfnach a llythrennedd dwyieithog cryfach.

Trawsieithu a Chyfieithu

Wrth ystyried trawsieithu, mae'n bwysig cydnabod bod trawsieithu yn ymestyn y tu hwnt i gyfieithu geiriau rhwng ieithoedd yn unig. Er bod y ddau sgil yn cynnwys defnyddio mwy nag un iaith, maent yn wahanol o ran pwrpas, defnydd yn yr ystafell ddosbarth, ac effeithiau ar ansawdd y dysgu. Mae trawsieithu yn golygu helpu dysgwyr i ddeall nad yw un iaith o reidrwydd yn cyfieithu gair am air o un iaith i'r llall. Yn hytrach, mae'n gofyn i ddysgwyr feddwl am elfennau iaith fel gosod ansoddeiriau a geiriau cytras mewn ieithoedd gwahanol trwy ddefnyddio'u repertoire iaith llawn i ffurfio ystyr ac i ddysgu. Mae cyfieithu ffurfiol yn ceisio aros mor ffyddlon â phosibl i ystyr y gwreiddiol tra bod cyfieithu anffurfiol yn blaenoriaethu cyflew'r ystyr cyffredinol. Mewn cyferbyniad, mae trawsieithu yn trin y mewnbwn yn hyblyg, gan ddefnyddio gwybodaeth o un iaith yn ôl yr angen i gefnogi mynegiant mewn iaith arall.

Trawsieithu fel Sgil Strategol

Mae cefnogi plant i ddatblygu trawsieithu fel sgil sy'n grymuso yn golygu gwerthfawrogi eu repertoire ieithyddol llawn fel y gallant fynegi syniadau cymhleth heb fynd yn ôl at y Saesneg oherwydd ei fod yn teimlo'n haws. Yn hytrach na gweld bylchau mewn geirfa fel diffygion (er enghraifft, sefyllfaoedd lle nad oes gan blentyn air penodol) mae cydnabod trawsieithu a'i addysgu fel strategaeth greadigol fwriadol, yn cryfhau meddwl, hunaniaeth a dysgu yn y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill.

Manteision Trawsieithu

- Cefnogi datblygiad dwyieithog: mae ymchwil yn dangos bod defnyddio iaith gryfaf plentyn yn helpu i adeiladu'r iaith wannach ac yn gwella hyfedredd yn y ddwy iaith.
- Meithrin Ymwybyddiaeth Iaith: gall trawsieithu wella ymwybyddiaeth meta-ieithyddol a morffolegol ac ehangu geirfa.
- Dyfnhau Dealltwriaeth: gall prosesu syniadau ar draws ieithoedd hyrwyddo dealltwriaeth lawnach am bwnc.
- Gwella Cyfathrebu a Llythrennedd: gall trawsieithu gryfhau sgiliau llafar a llythrennedd yn yr iaith wannach a helpu i integreiddio siaradwyr un iaith gyda siaradwyr yr iaith darged.
- Ymgysylltu â theuluoedd: gall trawsieithu alluogi rhieni ac aelodau o'r teulu sy'n uniaith i gefnogi a thrafod gwaith ysgol.
- Ehangu adnoddau: gall trawsieithu alluogi athrawon i dynnu ar ddeunyddiau o sawl iaith.

Heriau Trawsieithu

- Cyfyngiadau ar Adnoddau: gall prinder deunyddiau mewn ieithoedd lleiafrifol (e.e. Cymraeg) gyfyngu ar amrywiaeth gwersi a'u cydbwysedd.
- Gofynion Cynllunio: mae tasgau trawsieithu effeithiol yn gofyn am baratoi gofalus ac mae hyn yn gallu cymryd llawer o amser.
- Risg o Oruchafiaeth: gall dibyniaeth drom ar yr iaith gryfach (Saesneg yn aml) am fewnbwn gynyddu'r defnydd ohoni yn yr ystafell ddosbarth a thanseilio'r iaith leiafrifol oni bai fod nodau'r iaith darged yn amlwg.
- Amharodrwydd Athrawon: mae rhai athrawon yn poeni efallai na fydd trawsieithu yn diogelu'r iaith leiafrifol heb ffocws clir a monitro.

Mabwysiadu Dull Trawsieithu yn Ystafelloedd Dosbarth Cymru

Gall newid iaith fod yn ffordd bwerus o gefnogi dysgu. Gall athrawon gynllunio pwyntiau pwrpasol mewn gwersi lle defnyddir iaith gryfach neu iaith amgen i esbonio syniadau, cyn dychwelyd at yr iaith darged i fodelu a gwneud gwaith annibynnol. Ar ôl esboniadau, mae gwiriadau ffurfiannol cyflym yn helpu i gadarnhau dealltwriaeth, gan roi hyder i ddysgwyr cyn gofyn iddynt gynhyrchu iaith yn yr iaith darged.

Mae cymorth cymheiriaid fwyaf effeithiol pan fo’n fwriadol. Mae gweithgareddau strwythuredig meddwl-paru-rhannu yn ieithoedd cryfach dysgwyr, dan arweiniad staff, yn sicrhau bod rhyngweithiadau yn iaith y cartref yn parhau i fod yn gynhyrchiol ac i gefnogi’r dysgu yn hytrach na ffordd o osgoi iaith y cyfarwyddyd.

Gall yr ystafell ddosbarth ei hun ddathlu amlieithrwydd. Mae dylunio tasgau gydag opsiynau ymateb amlfodd ac amlieithog, ac asesiadau sy’n gwerthfawrogi cynnwys a chyfathrebu, yn caniatáu i ddysgwyr ddewis yr iaith sy’n arddangos eu dealltwriaeth a’u creadigrwydd orau.

Gall adnoddau pâr gyfoethogi’r broses hon. Er enghraifft, mae testun ‘sut i’ yn Gymraeg ochr yn ochr â diagram Saesneg, ynghyd â thasgau wedi’u sgaffaldu, yn annog dysgwyr i dynnu ar y ddwy iaith, gan gryfhau sgiliau dwyieithog a meddwl beirniadol.

Gall athrawon fodelu trawsieithu eu hunain, gan symud yn naturiol rhwng y Gymraeg a’r Saesneg i egluro ystyr, tynnu sylw at gysylltiadau geirfa, a normaleiddio newid rhwng ieithoedd fel rhan o gyfathrebu bob-dydd.

Mae gweithgareddau pontio geiriau fel waliau geiriau dwyieithog, geirfa pâr, neu fapiau cyfieithu yn helpu dysgwyr i weld cysylltiadau rhwng termau Cymraeg a’u cywerth yn Saesneg, gan fagu hyder a chwilfrydedd.

Mae hyblygrwydd yn allweddol. Gellir annog plant i ddrafftio yn yr iaith maen nhw’n meddwl ynddi, gyda chefnogaeth i gyfieithu i’r Gymraeg ar gyfer eu darn olaf o waith. Mae hyn yn anrhydeddu eu llais ac yn cryfhau eu sgiliau yn yr iaith darged ar yr un pryd.

Mae cyd-siarad hefyd yn chwarae rhan hanfodol. Mae trafodaethau pâr a grŵp mewn unrhyw iaith yn caniatáu i ddysgwyr archwilio syniadau’n rhydd cyn eu siapio yn ganlyniad Cymraeg.

Yn olaf, mae addysgu geirfa yn benodol yn dal i fod yn hanfodol. Mae cyflwyno geirfa Gymraeg ochr yn ochr â geiriau cytras, geiriau cyfystyr, ac enghreifftiau o ieithoedd eraill yn lleihau’r ysgogiad i fynd yn ôl at y Saesneg ac yn helpu dysgwyr i weld y Gymraeg fel rhan o dirwedd ieithyddol ehangach, gysylltiedig.

Goblygiadau i Ysgolion

Mae mabwysiadu meddylfryd trawsieithu yn dechrau trwy werthfawrogi pob iaith sydd gan bob plentyn yn yr ystafell ddosbarth. Dylai datblygiad proffesiynol helpu staff i weld ieithoedd y cartref fel offerynnau pwerus ar gyfer dysgu yn hytrach na rhwystrau. Pan fydd athrawon yn mynd i’r afael â thrawsieithu mewn ffordd hyblyg, maent yn creu mannau lle nad yw un iaith yn cael ei gweld fel iaith sy’n well nag iaith arall, ac mae hunaniaeth ieithyddol pob plentyn yn cael ei pharchu.

O fewn gwersi, gall athrawon gynllunio cyfleoedd er mwyn i sgiliau trawsieithu ffynnu. Gallai hyn olygu newid iaith y mewnbwn yn fwriadol: gan ganiatáu i ddysgwyr gasglu syniadau yn iaith y cartref, yna eu harwain i drafod neu ysgrifennu mewn iaith arall. Mae arferion o’r fath yn cadarnhau cyfoeth meddwl dwyieithog ac yn dangos i blant fod symud rhwng ieithoedd yn gryfder.

Gellir adeiladu dysgu mewn un iaith ac yna’i drosglwyddo at i iaith arall, gan helpu plant i weld cysylltiadau a dyfnhau eu dealltwriaeth. Er enghraifft, gellid mynegi cysyniad a archwiliwyd mewn trafodaeth Saesneg yn ddiweddarach wrth ysgrifennu yn Gymraeg, gan atgyfnerthu dealltwriaeth a mynegiant. Mae’r trosglwyddiad hwn yn meithrin hyder ac yn dangos nad yw gwybodaeth wedi’i chlymu at un iaith ond y gall deithio ar draws ieithoedd.

Dylai datblygiad proffesiynol, felly, bwysleisio pwysigrwydd meddylfryd hyblyg, sy’n seiliedig ar ymchwil. Mae athrawon sy’n cofleidio trawsieithu yn cefnogi datblygiad iaith a hefyd yn meithrin creadigrwydd, cynhwysiant a gwytnwch ymhlith eu dysgwyr.

Dylai ysgolion ddefnyddio dull trawsieithu sy’n briodol i’r cyfnod ac sy’n cyd-fynd â’r Cwricwlwm i Gymru. Bydd hyn yn gofyn am ymchwil a threialu pellach er mwyn effeithio ar gynllunio’r athro a bydd hyn yn ei dro yn effeithio ar y ffordd y cyflwynir yr addysg yn yr ystafell ddosbarth a chanlyniadau dysgwyr.

Cyfeiriadau

Baker, C. (2001) *Foundations of bilingual education and bilingualism*. 3ydd arg. Clevedon: Multilingual Matters.

Baker, C. (2006) *Foundations of bilingual education and bilingualism*. 4ydd arg. Clevedon: Multilingual Matters.

Baker, C. (2011) *Foundations of bilingual education and bilingualism*. 5ed arg. Bryste: Multilingual Matters.

García, O. (2009) *Bilingual education in the 21st century: A global perspective*. Malden, MA: Wiley-Blackwell.

García, O. a Wei, L. (2014) *Translanguaging: Language, bilingualism and education*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

García, O., Johnson, SI a Seltzer, K. (2017) *The translanguaging classroom: Leveraging student bilingualism for learning*. Philadelphia: Caslon Publishing.

Jones, B. (2017) 'Bilingual education for the empowerment of a minority language', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 20(2), tt. 208–220.

Jones, B. (2017) 'Translanguaging in bilingual schools in Wales', *Journal of Language, Identity and Education*, 16(4), tt. 199–215.

Pacific Learning (n.d.) *Translanguaging vs. Translation: Empowering bilingual learners beyond word-for-word teaching*. Ar gael ar: <https://pacificlearning.org> (Darllenwyd: 2 Rhagfyr 2025).

The Bell Foundation (n.d.) *Translanguaging*. Ar gael ar: <https://www.bell-foundation.org.uk> (Darllenwyd ar: 2 Rhagfyr 2025).

Llywodraeth Cymru (2022) *Cwricwlwm i Gymru: Canllawiau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Williams, C. (1994) *Arfarniad o ddulliau dysgu ac addysgu yng nghyd-destun addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg*. Bangor: Prifysgol Cymru.